# CAROL

# PLYGAIN.



*Ar Difyrwch Gwyr Harlech.*

CYN bod Daear, Dyn, nac Angel,
  Clwyf, na chwymp y Duw goruchel
Blaniodd ffordd, drwy gyngor dirgel,
  I dawel godi dyn ;
A phan oedd Dyn heb un ddihangfa,
  Yngharchar Deddf, mewn ing a gwasgfa,
Datguddiwyd cwr y plan i Adda,
  Gan y JEHOFA 'i hun,
Sef pan gyhoeddwyd gynta
  Y Frwydr fawr Calfaria,
Y man ysigwyd pen y Ddraig,
  Gan hâd y wraig, sef Efa ;
Caed Ebyrth fyrdd, o Hyrdd, a Buchod.

3.64
X205209261

Wyn, ac Anneir, a Thurturod,
  Adar tô, a cholomenod,
Nes dyfod gwir Oen DUW,
  Ar gyfer heddyw 'r bore
Caed sylwedd y cysgode,
  Wrth blan yr ail gyfammod gwiw,
Yn ffyddlon i'w ammodau,
  Dibrisiodd EF, do, Nêf y gwynfyd,
Ei Orsedd faingc, a'i Goron hyfryd,
  I oddef tlodi, gwarth, ac adfyd,
Er achub dynolryw.

Ni chwenychodd ymgnawdoli
  Yngrhroth Herodias, waed uchelfri,
Ond cymeroedd wregys MARI
  I ymfrawdoli â Dyn,
Ni cheisiodd urddas Palas Pilat,
  Na gorwych Lŷs yr Archoffeiriad,
I lannio porth yr esgoreddiad,
  Ond Preseb, anfad un.
Nid oedd wrth blan y Cyngor
  Na Sgarlad main, na Phorphor,
Na Phalas gwych, i'r Sanctaidd bâch:
  Ond Cadach, ac isel-gor,
Y Tlŵs, y Glân, heb dân i 'mdwymno,
Na gwisg, ond gwellt i orwedd arno,
O'n HIESU anwyl, pwy all beidio
  Ac wylo, wrth gofio 'i gur ?
'Roedd ffauau gan Lwynogod

A chan yr Adar nythod,
  Ond Hollgyfoethog Geidwad dyn
Yn grwydryn, heb breswylfod,
  AER Y NEF, ETIFEDD DAEAR,
Heb ddime i dalu'r drêth i Cesar,
  Yn ddiystyraf gan y Pleidgar
Enllibgar, o'r holl wyr.

Ei gariad gwiw, oedd Llyw, a Pheilad
  Ein CRIST, ar Fôr ei ddarostyngiad,
Waith o iselder mawr ein Ceidwad
  Y daeth derchafiad Dyn,
Yngwrth croeswyntoedd o bob goror,
  Storm ar storm, a rhuthrau'n ddi-dôr,
Dalia 'i Long a'r bwynt y cyngor,
  A'i Hangor ynddo ei hun.
O gwel y Sanct diniwaid,
  Fel Oen yn nghanol bleiddiaid
A'i wyneb at Galfaria ddu,
  Yn brysio i dalu'n dyled
Edrych arno yn ein Deddfle,
  Gan Uffern danllyd a'i harteithiau,
Yn chwysu'r gwaed, yn Gethsemane,
  Fel dagre o'th blegid di.
Tyr'd etto gwel y Cyfion,
  Yn gogwydd, gan lewygon,
Wrth ddwyn y Groes i Galfari,
  A'i gefn yn gwysi hirion,
Dacew 'i draed, a'i ddwylaw gwynion,

Yn ffosydd gwaedlyd ac archollion
Gwedi eu sicrhau yn gleision,
A hoelion, arni hi.

Daccw Uffern yn llawn cyffro,
Cannans Deddf yn nelu atto,
Cledd cyfiawnder gwedi deffro,
I daro Mab y Dyn,
Dacw'r aberth dwyfol hanfod,
Yn rhwym ar allor aur y Duwdod,
Yn dal anrhaethol bwysau dyrnod
Anorfod Tri yn Un
Daccw'r Tâd yn foddlon,
A'r Ddeddf yn gwaeddi digon,
Daccw'r Meichiau mawr yn rhydd
O'i ddyled herwydd Seion,
Ac yn rhoddi i fynu'r yspryd,
Tan blygu 'i ben i Angau dyfryd,
Er mwyn cynhesu i'w Anwylyd
Y tamplyd fyglyd Fedd;
Daccw'r trydydd bore,
Ein Crist yn congcro Ange,
Gan esgyn i'w Orseddfaingc fry,
I'w dra dyrchafu ynte,
Y lle mae'n eiriol tros ei eiddo,
A'i Yspryd sanctaidd s'yn bugeilio,
Ei Briodasferch, gan ei phuro,
A'i gwisgo'n hardd ei gwedd.

*Llanrwst Argraffwyd gan John Jones*

[illegible] Salmyddiaeth

[illegible]

[illegible] Beirdd Cymreig

[illegible]

[illegible]